# Caban Y Faenol CYF

# Gadael a Chasglu Plant

Nod Caban Y Faenol yw gweithredu trefniadau bod pob plentyn sy'n cael ei adael a'i gasglu o'r lleoliad yn gwbl ddiogel.

Mae sicrhau bod gan Caban y Faenol weithdrefnau diogel ac effeithiol yn eu lle i adael a chasglu plant yn rhan hanfodol o barchu Hawliau'r Plentyn fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

Erthygl 3: **Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio tuag at yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Erthygl 12: **Mae gan blant yr hawl i ddweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.**

Erthygl 19: **Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, a'u hamddiffyn rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.**

Rhaid i rieni hysbysu'r Clwb ynglŷn â phresenoldeb / diffyg presenoldeb eu plentyn. Mae methu â rhoi digon o rybudd yn arwain at godi cost lawn y sesiwn, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

- Yn ystod gwyliau ysgol, bydd staff yn cyfarch y plentyn/plant wrth y drws ffrynt lle bydd y rhieni/gofalwyr yn eu trosglwyddo. Bydd yr aelod hwnnw o staff wedyn yn eu harwyddo i mewn ac yn eu harwyddo allan o safle'r Clwb ar yr adegau priodol.

## Hebrwng plant rhwng yr ysgol a'r clwb

- Bydd nifer priodol o staff yn mynd gyda'r plant i'w dosbarthiadau yn dilyn clwb brecwast.
- Bydd y plant yn cael eu casglu o'r ysgol gan nifer priodol o staff (yn dibynnu ar nifer y plant sydd wedi archebu lle yn y Clwb) a'u hebrwng yn ddiogel i safle'r Clwb. Yna byddant yn cael eu llofnodi gan aelodau o staff.
- Bydd athrawon a phlant yr ysgol yn adnabod staff y clwb.
- Bydd asesiad risg trylwyr yn cael ei gynnal a'i adolygu'n rheolaidd.
- Bydd cytundeb clir rhwng yr ysgol a Chaban Y Faenol ynglŷn â phryd mae cyfrifoldeb am ddiogelwch y plant yn cael ei drosglwyddo'n swyddogol.
- Os yw plentyn yn absennol o'r clwb heb rybudd ymlaen llaw, bydd staff yn gwirio i weld a fynychodd yr ysgol y diwrnod hwnnw (ni fyddant yn derbyn gair plant eraill). Os nad yw lleoliad y plentyn yn glir, bydd staff yn hysbysu'r cyswllt dynodedig yn yr ysgol ar unwaith ac yn cysylltu â'r rhieni/gofalwyr.

Bydd Caban y Faenol yn:

- cadw cofnod o bob unigolyn a ganiateir/na chaniateir i gasglu'r plentyn ar y ffurflen gofrestru.
- hysbysu'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n casglu'r plentyn bod yn rhaid trafod unrhyw newidiadau i'r trefniadau casglu gyda'r rheolwyr.
- hysbysu'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid sy'n casglu'r plentyn bod rhaid iddynt hysbysu'r lleoliad os oes unrhyw reswm na fydd y plentyn yn cael ei gasglu mewn pryd.
- mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn ôl disgresiwn y rheolwr, gellir gwneud trefniant i gasglu plentyn gan ddefnyddio system caniatâd cyfrinair.
- bydd unrhyw anghysondeb yn y trefniadau ar gyfer casglu'r plentyn yn cael ei drafod gyda'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid a bydd cofnod o unrhyw broblemau yn cael ei gadw yn y llyfr digwyddiadau. Bydd y rheolwr yn trafod y mater gyda'r Pwyllgor.
- hysbysu'r rhiant/gofalwyr/gwarcheidwaid mai eu cyfrifoldeb nhw yw trosglwyddo'r plentyn i aelod o staff.
- cymryd cyfrifoldeb am drosglwyddo'r plentyn i bwy bynnag sy'n ei gasglu wedi hynny mae'r cyfrifoldeb am y plentyn yn cael ei drosglwyddo yn ôl i'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.
- Rhaid i rieni hysbysu'r Clwb o fewn 24 awr ynglŷn â phresenoldeb / diffyg presenoldeb eu plentyn. Mae methu â rhoi digon o rybudd yn arwain at godi cost lawn y sesiwn, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

**Brodyr a chwiorydd/Plant yn casglu**

Mae Caban Y Faenol yn deall ar adegau nad yw rhieni/gofalwyr bob amser ar gael i gasglu plant mewn pryd/yn destun oedi ac ati ac mewn amgylchiadau o’r fath fe all anfon brodyr a chwiorydd/plant eraill i nôl eu plentyn/plant.

Gan mai 13 oed yw'r isafswm oedran cyfreithiol ar gyfer gwarchod plant, ni fydd Caban y Faenol yn caniatáu i unrhyw blentyn dan 13 oed gasglu plentyn. Hefyd ni fyddwn yn rhyddhau plentyn sy'n iau na'r blynyddoedd iau - Blwyddyn 3+ i unrhyw un dan 16 oed.

Rhaid i rieni roi gwybod i ni os ydynt yn bwriadu cael plentyn dan 16 oed i gasglu eu plentyn/plant a rhaid eu bod wedi llenwi slip caniatâd ymlaen llaw. Ni fydd Caban Y Faenol yn trosglwyddo plant i'w casglu gan unrhyw un o dan 16 oed heb i slip caniatâd gael ei lenwi yn gyntaf.

# Caban Y Faenol CYF

Wrth lenwi ac arwyddo'r slip caniatâd mae rhieni'n cytuno bod cyfrifoldeb y plentyn/plant sy'n cael ei gasglu yn trosglwyddo o Gaban Y Faenol iddynt hwy eu hunain a'r plentyn sy'n casglu.